# ATODLEN 2

## Y WEITHDREFN AR GYFER GWNEUD RHEOLIADAU

*Rheoliadau'r weithdrefn uwch*

1 (1) Mae'r paragraff hwn yn gymwys i offeryn statudol sy'n cynnwys rheoliadau a wneir o dan y Ddeddf hon sydd—

(a) yn sefydlu awdurdod cyhoeddus newydd;

(b) yn rhoi swyddogaethau i awdurdod cyhoeddus;

(c) yn gosod neu'n cynyddu ffi mewn cysylltiad â swyddogaeth sy'n arferadwy gan awdurdod cyhoeddus;

(d) yn creu trosedd neu'n ehangu cwmpas trosedd;

(e) yn creu neu'n diwygio pŵer i ddeddfu;

(f) yn addasu deddfwriaeth sylfaenol;

(g) wedi eu gwneud o dan adran 11, adran 12 neu adran 22;

ond nid yw'r paragraff hwn yn gymwys os yw paragraff 4 yn gymwys.

(2) Os yw Gweinidogion Cymru yn ystyried ei bod yn briodol bwrw ymlaen i wneud y rheoliadau rhaid iddynt osod drafft o'r rheoliadau gerbron Cynulliad Cenedlaethol Cymru ynghyd â datganiad sy'n nodi barn Gweinidogion Cymru o ran a ddylai'r weithdrefn yn is-baragraffau (6) i (14) fod yn gymwys.

(3) Os yw'r rheoliadau drafft yn cynnwys darpariaeth sy'n addasu deddfwriaeth sylfaenol, rhaid i Weinidogion Cymru osod datganiad gerbron Cynulliad Cenedlaethol Cymru sy'n esbonio pam bod angen y ddarpariaeth.

(4) Os, ar ôl i'r cyfnod o 40 o ddiwrnodau ddod i ben, yw'r rheoliadau drafft a osodwyd o dan is-baragraff (2) wedi eu cymeradwyo drwy benderfyniad gan Gynulliad Cenedlaethol Cymru, caiff Gweinidogion Cymru wneud rheoliadau ar ffurf y rheoliadau drafft, oni bai bod y weithdrefn yn is-baragraffau (6) i (14) yn gymwys.

(5) Mae'r weithdrefn yn is-baragraffau (6) i (14) yn gymwys i'r rheoliadau drafft yn lle'r weithdrefn yn is-baragraff (4)—

(a) os yw'r rheoliadau drafft i'w gwneud o dan adran 12 neu adran 22,

(b) os yw Cynulliad Cenedlaethol Cymru yn penderfynu o fewn y cyfnod o 30 o ddiwrnodau y dylai'r weithdrefn fod yn gymwys, neu

(c) os yw pwyllgor yng Nghynulliad Cenedlaethol Cymru a chanddo'r gorchwyl o adrodd ar y rheoliadau drafft yn argymell o fewn y cyfnod o 30 o ddiwrnodau y dylai'r weithdrefn fod yn gymwys ac nad yw'r Cynulliad, drwy benderfyniad, yn gwrthod yr argymhelliad o fewn y cyfnod hwnnw.

(6) Rhaid i Weinidogion Cymru roi sylw i—

(a) unrhyw sylwadau,

(b) unrhyw benderfyniad gan Gynulliad Cenedlaethol Cymru, ac

(c) unrhyw argymhellion gan bwyllgor yng Nghynulliad Cenedlaethol Cymru a chanddo'r gorchwyl o adrodd ar y rheoliadau drafft,

a wneir yn ystod y cyfnod o 60 o ddiwrnodau o ran y rheoliadau drafft.

(7) Os, ar ôl i'r cyfnod o 60 o ddiwrnodau ddod i ben, yw Gweinidogion Cymru yn dymuno gwneud rheoliadau ar ffurf y drafft, rhaid iddynt osod gerbron Cynulliad Cenedlaethol Cymru ddatganiad—

(a) sy'n datgan a gyflwynwyd unrhyw sylwadau, a

(b) sydd, os cyflwynwyd unrhyw sylwadau, yn rhoi manylion y sylwadau hynny.

(8) Caiff Gweinidogion Cymru, ar ôl gosod y datganiad, wneud rheoliadau ar ffurf y drafft os y'i cymeradwyir drwy benderfyniad gan Gynulliad Cenedlaethol Cymru.

(9) Ond caiff pwyllgor yng Nghynulliad Cenedlaethol Cymru a chanddo'r gorchwyl o adrodd ar y rheoliadau drafft, ar unrhyw adeg ar ôl i ddatganiad gael ei osod o dan is-baragraff (7) a chyn i'r rheoliadau drafft gael eu cymeradwyo gan y Cynulliad o dan is-baragraff (8), argymell nad oes unrhyw drafodion pellach mewn perthynas â'r rheoliadau drafft.

(10) Pan fo argymhelliad wedi ei wneud gan bwyllgor yng Nghynulliad Cenedlaethol Cymru o dan is-baragraff (9) mewn perthynas â rheoliadau drafft, ni chaniateir unrhyw drafodion mewn perthynas â'r drafft o dan is-baragraff (8) oni bai bod yr argymhelliad wedi ei wrthod drwy benderfyniad gan y Cynulliad.

(11) Os, ar ôl i'r cyfnod o 60 o ddiwrnodau ddod i ben, yw Gweinidogion Cymru yn dymuno bwrw ymlaen i wneud y rheoliadau drafft ond gyda newidiadau sylweddol, rhaid i Weinidogion Cymru osod gerbron Cynulliad Cenedlaethol Cymru—

(a) y rheoliadau drafft diwygiedig,

(b) datganiad—

(i) sy'n rhoi crynodeb o'r newidiadau a gynigir,

(ii) sy'n datgan a gyflwynwyd unrhyw sylwadau, a

(iii) sydd, os cyflwynwyd unrhyw sylwadau, yn rhoi manylion y sylwadau hynny.

(12) Os yw'r rheoliadau drafft diwygiedig wedi eu cymeradwyo drwy benderfyniad gan Gynulliad Cenedlaethol Cymru, caiff Gweinidogion Cymru wneud y rheoliadau ar ffurf y rheoliadau drafft diwygiedig.

(13) Ond caiff pwyllgor yng Nghynulliad Cenedlaethol Cymru a chanddo'r gorchwyl o adrodd ar y rheoliadau drafft diwygiedig, ar unrhyw adeg ar ôl i ddatganiad gael ei osod o dan is-baragraff (11) a chyn i'r rheoliadau drafft gael eu cymeradwyo gan y Cynulliad o dan is-baragraff (12), argymell nad oes unrhyw drafodion pellach mewn perthynas â'r rheoliadau drafft diwygiedig.

(14) Pan fo argymhelliad wedi ei wneud gan bwyllgor yng Nghynulliad Cenedlaethol Cymru o dan is-baragraff (13) mewn perthynas â rheoliadau drafft diwygiedig, ni chaniateir unrhyw drafodion mewn perthynas â'r drafft diwygiedig o dan is-baragraff (12) oni bai bod yr argymhelliad wedi ei wrthod drwy benderfyniad gan y Cynulliad.

(15) At ddibenion y paragraff hwn mae rheoliadau wedi eu gwneud ar ffurf y rheoliadau drafft neu'r rheoliadau drafft diwygiedig os nad ydynt yn cynnwys newidiadau sylweddol i'w darpariaethau.

(16) Yn y paragraff hwn, mae cyfeiriadau at y cyfnodau "30 o ddiwrnodau", "40 o ddiwrnodau" a "60 o ddiwrnodau" mewn perthynas ag unrhyw reoliadau drafft yn gyfeiriadau at y cyfnodau o 30, 40 a 60 o ddiwrnodau sy'n dechrau â'r diwrnod y cafodd y rheoliadau drafft eu gosod gerbron Cynulliad Cenedlaethol Cymru.

(17) At ddibenion is-baragraff (16) nid oes unrhyw ystyriaeth i'w rhoi i unrhyw amser pan yw Cynulliad Cenedlaethol Cymru wedi ei ddiddymu neu ar doriad am fwy na 4 diwrnod.